

Presennol:	Huw Jones	(Cadeirydd yr Awdurdod)
	Hugh Hesketh Evans	(Aelod o'r Awdurdod)
	Marian Wyn Jones	(Aelod o'r Awdurdod) (hyd at eitem 11)
	Siân Lewis	(Aelod o'r Awdurdod)
	Elan Closs Stephens	(Aelod o'r Awdurdod) (hyd at eitem 11)
	Guto Harri	(Aelod o'r Awdurdod) (hyd at eitem 11)
Staff S4C:	Ian Jones	(Prif Weithredwr)
	Dafydd Rhys	(Cyfarwyddwr Cynnwys)
	Elin Morris	(Cyfarwyddwr Polisi Corfforaethol a Masnachol)
	Gwyn Williams	(Cyfarwyddwr Cyfathrebu ac Ymwneud)
	Carys Evans	(Pennaeth Dadansoddi) (eitemau 6-6.2)
	Phil Williams	(Ysgrifennydd yr Awdurdod)
	Sharon Winogorski	(Prif Swyddog Cyllid) (eitem 8.1 ymlaen)
	Gwenllian Griffiths	(Cyfarwyddwr Partneriaethau) (eitemau 6.1)
	Steve Thomas	(Ymgynghorydd Strategaeth a Pholisi)(eitemau 6-6.2)
	Bethan C. Williams	(Cynorthwydd i Ysgrifennydd yr Awdurdod)
Ymddiheuriadau:	John Davies	(Aelod o'r Awdurdod)
	Carol Bell	(Aelod o'r Awdurdod)

1. Croeso a Datganiadau Diddordeb

Croesawodd y Cadeirydd bawb i'r cyfarfod a gofynnodd i unrhyw aelod oedd â diddordeb ym musnes y cyfarfod iddynt ddatgan eu diddordeb.

Gweler y Gofrestr Diddordebau yn adran yr Awdurdod ar wefan S4C ar gyfer datganiadau cyffredinol.

Nododd y Cadeirydd y bydd y Papur Gwyn yn ymwneud â Siartr newydd y BBC yn cael ei gyhoeddi gan yr Ysgrifennydd Gwladol yn ystod y dydd a'i fod yn awyddus i roi cyfle i'r Awdurdod i drafod ac ystyried goblygiadau'r argymhellion. O'r herwydd roedd am addasu trefn yr agenda a chyflwyno'i adroddiad yn dilyn y cyhoeddiad yn y Senedd.

Cyfeiriodd y Cadeirydd at benderfyniad yr Awdurdod i gynnal cyfarfod anffurfiol cyn cyfarfodydd busnes yr Awdurdod o hyn ymlaen gan esbonio ei fod yn awyddus i weithredu'r drefn newydd o fis Gorffennaf, oherwydd bod patrwm cyfarfodydd Mehefin yn wahanol i'r drefn arferol, gyda'r Awdurdod yn cyfarfod ar nos Fercher a Diwrnod i Ffwrdd ar gyfer trafod strategaeth ar y dydd Iau.

Cofnodion a Materion yn Codi

[**Crynodeb:** Cyflwynwyd cofnodion cyfarfod rhif 397 (a gynhaliwyd ar 10.03.16) a nodwyd nifer o faterion ffeithiol i'w cywiro.]

Cymeradwydd yr Awdurdod y cofnodion ar sail y newidiadau uchod.

Materion yn Codi o'r Cofnodion

Cais cynllunio ar gyfer ystâd Llanisien

[**Crynodeb:** Cafwyd adroddiad parthed camau nesaf y broses o baratoi ar gyfer cais caniatâd cynllunio ar gyfer ystâd Llanisien.]

Cynlluniau ariannol Adleoli a Chydleoli

[Crynodeb: Cafwyd diweddariad parthed nifer o faterion yn ymwneud a chynlluniau ariannol y prosiectau Adleoli a Chydleoli.]

Maes B

Gofynnwyd am ddiweddariad ar y cynlluniau i ddarlledu eitemau o Faes B a chadarnhaodd DRh ei fod yn parhau i drafod opsiynau, ond nad oedd penderfyniad terfynol wedi ei wneud hyd yma.

Polisi Ffilm S4C

Nodwyd y bydd y Pwyllgor Cynnwys yn derbyn diweddariad parthed polisi ffilm S4C yn ei gyfarfod ym mis Mehefin.

6.1.3 – Cyflwyniad Tracio Delwedd

Adroddwyd fod cwmni Beaufort wedi darparu deunydd ychwanegol i'r Adran Ddadansoddi parthed perfformiad sianelau eraill, ac y bydd yn cael ei gynnwys yn yr adroddiad dadansoddi nesaf.

Cais i'r DCMS am gadarnhau manylion Pwerau Benthg S4C

Adroddwyd fod HJ ac IHJ wedi cyfarfod gyda swyddogion DCMS ddydd Llun a bod swyddogion DCMS yn parhau i drafod y cais gyda'r Trysorlys.

13.1.15 – Hyd a chynnwys adroddiadau'r Awdurdod

Cyfeiriwyd at y drafodaeth am baratoi gwybodaeth ar gyfer yr Awdurdod a nodwyd y byddai'n ddefnyddiol i gynnwys crynodeb gweithredol ar gyfer pob papur ac adroddiad a gyflwynir i'r Awdurdod.

Penderfynwyd adolygu arddull a chynnwys papurau gan gynnwys crynodebau clir a pharatoi adroddiadau cryno.

2. **Cofrestr Penderfyniadau a Phwyntiau Gweithredu**

Cyflwynwyd y Gofrestr Penderfyniadau a Phwyntiau Gweithredu, ac eglurwyd fod y ddogfen bellach yn nodi newidiadau o'r mis blaenorol ar ffurf 'track changes' er mwyn nodi lle mae materion wedi eu dileu o'r gofrestr unwaith iddynt gael eu gweithredu.

Penderfynwyd y dylid sicrhau fod dyddiad cyflawni yn cael ei nodi'n glir yn ystod y cyfarfodydd er mwyn eu cynnwys yn y gofrestr.

3. **Canolfan yr Egin**

Cyfeiriwyd at y drafodaeth am leoliad S4C ar ail lawr Canolfan yr Egin a

holwyd a oedd swyddogion wedi ystyried a allai hyn effeithio ar bresenoldeb S4C o fewn y ganolfan. Esboniodd IHJ fod y gofod sydd wedi ei neilltuo ar gyfer S4C bellach ar lawr cyntaf yr Egin gan ei fod yn cynnig gofod mwy addas ar gyfer anghenion S4C. Roedd yn hyderus y byddai gan S4C bresenoldeb hefyd ar y llawr gwaelod wrth ymyl y fynedfa er mwyn sicrhau fod brand S4C i'w weld yn glir yn y ganolfan.

4. **Adroddiad y Cadeirydd**

Cyflwynodd y Cadeirydd ei adroddiad a chyfeiriodd yn benodol at y materion canlynol.

Cyflwynodd PW grynodedb o brif benawdau'r Papur Gwyn a gyhoeddwyd gan yr Ysgrifennydd Gwladol yn gynharach yn y dydd.

- Bwriad i gynnig Siartr am gyfnod o 11 mlynedd (yn lle 10 fel ar hyn o bryd),
- Sefydlu bwrdd unedol, yn unol â phrif argymhellion Clementi;
- Cadeirydd ac Is gadeirydd i'w penodi gan y Llywodraeth;
- Y BBC i fod yn gyfrifol am drefniadau ar gyfer penodi'r aelodau anweithredol;
- Diweddarau a symleiddio'r Pwrpasau Cyhoeddus gan roi lle blaenllaw i sicrhau 'hynodrydd' o fewn gwasanaethau'r BBC;
- Y Bwrdd Unedol i gynnwys cynrychiolwyr o'r cenhedloedd ;
- Materion megis cyfrifoldeb rheoleiddio, cwynion, trwydded fframwaith, elfen o asesu perfformiad i drosglwyddo i Ofcom;
- Rona Fairhead i barhau yn Gadeirydd y BBC a'r Bwrdd Unedol tan ddiwedd ei thymor yn 2018;
- Blaenoriaethu a gwarchod ariannu'r *World Service*;
- Gosod targedau a gofynion ychwanegol o ran Amrywiaeth;
- Gofynion pellach o ran cynnwys ar gyfer y cenhedloedd;
- Ymrwymiad i ddarlledu ieithoedd lleiafrifol;
- Cyfeiriadau cadarnhaol at S4C, gan gynnwys y bwriad i barhau gyda'r bartneriaeth gydag S4C;
- Agor archif y BBC a rhannu cynnwys gyda phartneriaid allanol;
- Cefnogi darparwyr newyddion lleol;
- Targedau effeithlonrwydd diwygiedig;
- Cydsyniad i gynllun BBC Studios;
- Elfen newydd o arian wedi ei neilltuo ar gyfer cynnwys i blant;
- Cadarnhau cynnwys Setliad Ffi'r Drwydded (o Orffennaf 2015), gan gynnwys yr elfen CPI, ymrwymiad o ran yr 'iPlayer loophole', ac ariannu trwyddedu i bobl dros 75, ac
- Ystyried egwyddorion a phroses hirdymor ar gyfer ariannu'r BBC.

Esboniwyd fod y Papur Gwyn yn cynnwys nifer o gyfeiriadau cadarnhaol am S4C a bod swyddogion wedi bod yn trafod y rhain gyda DCMS a'r BBC yn ystod yr wythnos ddiwethaf.

Cynigiodd ECS adael y cyfarfod er mwyn rhoi cyfle i'r Aelodau eraill drafod ymateb S4C i'r Papur Gwyn. Penderfynodd yr Aelodau eraill y dylai ECS aros a chyfrannu i'r drafodaeth fel Aelod o'r Awdurdod.

Roedd y Cadeirydd yn falch i ddarllen cyfeiriadau cadarnhaol at S4C yn y Papur Gwyn.

[**Crynodeb**: Cyfeiriodd at gyfarfodydd gydag Ysgrifennydd Gwladol Cymru ac

yna swyddogion DCMS yn ddiweddar lle cafwyd cyfle i gyflwyno diweddariad ar faterion yn ymwneud ag S4C]

Nododd y Cadeirydd fod trafodaethau hefyd yn parhau gyda swyddogion y BBC. Roedd y trafodaethau'n awgrymu awydd i geisio dod i gytundeb yn fuan ar ôl cyhoeddi'r Papur Gwyn parthed ffurf a chynnwys cyfnod nesaf partneriaeth S4C gyda'r BBC., gan gynnwys egwyddorion ar gyfer yr hir dymor pe byddai Bwrdd Unedol yn cael ei sefydlu, y 'read-across' ariannol, parchu egwyddorion sy'n bwysig i S4C a'r BBC a pharatoi ar gyfer Adolygiad 2017.

[**Crynodeb:** Cafwyd trafodaeth am egwyddorion fyddai'n bwysig i S4C o fewn trefniant ar gyfer y dyfodol a'r cyd-destun ehangach a nodwyd y byddai cyfleoedd pellach i drafod materion o'r fath yn Niwrnod i Ffwrdd fis Mehefin.]

Nodwyd y bydd y cyfarfod gyda Rona Fairhead ac Ymddiriedolaeth y BBC ar 19 Mai yn bwysig iawn o ran trafod cyfnod nesaf y bartneriaeth, y 'read-across' a chynnwys y Papur Gwyn.

5. **Paratoi ar gyfer y Diwrnod i Ffwrdd**

Cyfeiriodd y Cadeirydd at y Diwrnod i Ffwrdd sydd i'w gynnal ym mis Mehefin a nododd ei fod yn awyddus i dderbyn awgrymiadau gan yr Aelodau ar gyfer pwrpas ac agenda'r cyfarfod. Roedd yn awyddus i sicrhau fod y cyfarfod yn gyfle i lunio a chytuno ar naratif a strategaeth glir ar gyfer S4C a'r cyfnod o baratoi ar gyfer Adolygiad 2017.

Nododd y Cadeirydd ei fod wedi bod yn ystyried ffurf y diwrnod, gan gynnwys defnyddio hwylusydd allanol i gynnal rhai sesiynau, ond roedd wedi dod i'r casgliad y byddai'n anodd disgwyl i berson allanol fod a gwybodaeth ddigonol o strategaeth S4C. Yn hytrach, roedd yn awyddus i John Davies, fel y Prif Aelod Anweithredol i gadeirio rhai o sesiynau'r cyfarfod.

Esboniwyd y byddai dogfennau cefndirol yn cael eu darparu i'r Aelodau ymlaen llaw er mwyn cynorthwyo gyda'u gwaith paratoi. Roedd yn awyddus i ddefnyddio'r diwrnod fel cyfle i lunio naratif a strategaeth glir ar gyfer y cyfnod o baratoi ar gyfer Adolygiad 2017.

Penderfynwyd y byddai John Davies yn arwain rhai sesiynau yn ystod y cyfarfod, ac y byddai amser digonol yn cael ei neilltu ar ddiwedd y diwrnod i gytuno ar ddeilliannau a chasgliadau'r Diwrnod i Ffwrdd.

6. **Adroddiad y Prif Weithredwr**

Cyflwynodd y Prif Weithredwr ei adroddiad a chyfeiriodd yn benodol at y materion canlynol.

6.1 Esboniodd IHJ ei fod yn awyddus i gyflwyno diweddariad am waith yr adran bartneriaethau i'r Awdurdod.

Cyflwynodd Gwenllian Griffiths adroddiad i'r Awdurdod am waith yr adran. Eglurodd fod yr adran wedi'i chreu yn 2012, a'i bod hi'n gweithredu'r strategaeth a luniwyd bryd hynny. Roedd yn awyddus i gyflwyno gwybodaeth am bartneriaethau presennol a'r gwaith sydd ar y gweill o ran datblygu strategaeth ar gyfer y dyfodol, gan gynnwys meini prawf ar gyfer asesu gwerth partneriaethau arfaethedig ac asesu llwyddiant partneriaethau

unwaith iddynt gael eu sefydlu.

Cyfeiriodd at Amcanion yr Adran ar gyfer 2016-17 gan nodi y bydd gwaith gwleidyddol yn flaenoriaeth yn ystod y flwyddyn.

Roedd bwriad hefyd i sefydlu a gweithredu nifer llai o bartneriaethau yn y dyfodol. Roedd nifer fawr o gyrff a sefydliadau'n dal i fod yn awyddus i bartneru gydag S4C, ond roedd angen sicrhau y byddai partneriaethau newydd yn darparu gwerth i S4C ac yn cyfrannu at amcanion gweithredol a blaenoriaethau strategol S4C. Er mwyn gwneud hyn roedd yr adran yn bwriadu datblygu meini prawf ar gyfer asesu sut gallai bartneriaethau gyfrannu at wireddu amcanion S4C. Esboniwyd nad oes bwriad i ddefnyddio'r meini prawf ar gyfer asesu partneriaethau sydd eisoes wedi eu sefydlu.

Bwriedir hefyd i lunio mesuryddion penodol ar gyfer partneriaethau newydd er mwyn gallu asesu perfformiad yn erbyn yr amcanion gwreiddiol.

Esboniwyd fod gwaith sylweddol yn cael ei gyflawni ar draws nifer o adrannau o fewn S4C ym maes addysg ar hyn o bryd, a bod yr adran bartneriaethau'n cydlynu sawl elfen o'r gwaith. **Nodwyd y byddai diweddariad am bartneriaethau addysg yn cael ei gyflwyno i'r Awdurdod fel rhan o'r diweddariad am opsiynau ar gyfer Porth Addysg ym mis Medi.**

Roedd yr adran hefyd yn cydweithio gyda'r adrannau cynnwys a chyfathrebu ar brosiectau cymunedol a chefnogi cynnwys

Diolchwyd i GG am ei chyflwyniad, a chafwyd cyfle i'w holi am waith yr adran.

Holwyd a oedd ystyriaeth wedi'i roi i dargedu'r oedran 11-16 o fewn partneriaethau S4C. Nododd GG fod partneriaeth wedi'i sefydlu drwy'r cynllun llysgenhadon mewn nifer o ysgolion uwchradd sy'n gallu targedu'r grŵp oedran 11-16. Roedd CBAC wedi cytuno i ddatblygu'r cynllun llysgenhadon presennol i fod yn elfen o fewn y fagloriaeth Gymraeg.

Roedd trafodaethau hefyd ar y gweill gydag Adran y Gymraeg o fewn y Llywodraeth, ac roedd cynlluniau hefyd i ymestyn y bartneriaeth bresennol gyda Siartr Iaith Gwynedd a darparu cynllun tebyg ar draws Cymru.

Roedd cystadleuaeth wedi ei lansio ar y cyd gyda'r Boys and Girls Club of Wales (yn bennaf yn y De Ddwyrain) i greu fideo byr, gyda'r chwech gorau yn cael eu rhoi ar wefan S4C.

Awgrymwyd y gallai fod yn fuddiol i ddatblygu partneriaeth gyda'r Consortia Addysg yn hytrach nac ysgolion unigol.

6.2 Panel Ffigyrau Gwylio TRP

Cyflwynodd CE adroddiad am banel ffigyrau gwylio TRP sy'n cael ei ddarparu gan gwmni TRP fel rhan o'r cytundeb ar gyfer y Panel Ymateb.

Cafwyd trafodaeth am y dulliau o fesur ffigyrau gwylio a nodwyd fod rhwystredigaeth yn parhau nad yw BARB yn gallu mesur gwylio cyfansawdd ar draws llwyfannau. Roedd data TRP yn cynnig dull i fesur gwylio traws-lwyfan.

Esboniwyd fod dulliau casglu data BARB a TRP yn wahanol i'w gilydd, gyda BARB yn defnyddio offer pen-set i recordio gwylio, tra roedd TRP yn llunio panel hunan-ddewisiol trwy Panel Cyfryngau Cymru. Roedd BARB yn cynnig gwybodaeth am wyluo ar draws y DU ymysg Siaradwyr Cymraeg a'r Di-Gymraeg ond roedd TRP ond ar hyn o bryd yn gallu cynnig gwybodaeth am Siaradwyr Cymraeg yng Nghymru.

[**Crynodeb:** Cyfeiriwyd at ffigyrau cyrhaeddiad BARB a TRP, gan nodi y gallai fod yn anodd esbonio dulliau mesur y systemau gwahanol.]

Esboniwyd fod TRP yn cynnig dull amgen o asesu lefelau gwylio a'r gallu i ddeall mwy am batrymau gwylio teledu ac ar-lein, ond nad oedd bwriad i beidio tanysgrifio i, neu ddefnyddio data BARB. Roedd rhagor o waith i'w wneud i ddeall rhagor am y gwahaniaethau rhwng BARB a TRP, o ran maint y cyrhaeddiad, ond hefyd i weld pa wahaniaethau sydd yn y patrymau wythnosol.

6.3 **Swydd y Cyfarwyddwr Cynnwys**

Nododd IHJ y bydd cyfweiliadau ar gyfer y Cyfarwyddwr Cynnwys yn cael eu cynnal ymhen wythnos.

7. **Adroddiad Cyfathrebu Chwarter 4 2015-16**

Cyflwynodd GW yr Adroddiad Cyfathrebu ar gyfer chwarter 4 2015-16 a chyfeiriodd yn benodol at nifer o gyfresi a rhaglenni.

Tymor y Cymoedd

Defnyddiwyd ap Perisgop i ffrydio fideo byw a chynnal gweithgaredd bob nos yn dilyn darlledu'r rhaglen.

Rhaglen Philip Jones Griffiths

Cysylltwyd gyda chlybiau ffotograffiaeth er mwyn targedu cynulleidfaoedd penodol, ond siomedig oedd yr ymateb gan y clybiau ar y cyfan.

Ail-strwythuro'r Adran Gyfathrebu

Eglurwyd fod y broses yn parhau. Roedd dau aelod o staff wedi penderfynu gadael yr adran yn sgil yr ail-strwythuro a byddent yn gadael dros y misoedd nesaf.

Diolchwyd i GW am ei adroddiad a chafwyd trafodaeth am weithgareddau hyrwyddo'r cyfnod.

Holwyd a oedd yn anodd hyrwyddo rhaglenni unigol ac eglurodd GW ei bod yn gallu bod yn anodd hyrwyddo rhaglenni o'r fath, ond bod rhai rhaglenni yn gallu creu ardrawiad sylweddol, megis Fy Nhad y Swltan, gyda mwy wedi gwylio'r ailddarllediad yn hytrach na'r darllediad cyntaf. Roedd gallu cyflwyno stori am raglen o'r fath i gyfryngau megis y Daily Mail a'r Mirror yn cynnig cyfleoedd arbennig i hyrwyddo'r ddarpariaeth i gynulleidfaoedd newydd.

8. **Adroddiad Ariannol Chwarter 4, 2015-16**

Cyflwynodd SW Adroddiad Ariannol Chwarter 4 er gwybodaeth i'r Awdurdod.

Nododd IHJ fod y gyllideb yn cynnwys darpariaeth ar gyfer codiadau cyflog o 1% yn unol â chanllawiau'r Llywodraeth a thrafodaethau blaenorol yr Awdurdod. Nid oedd trafodaethau wedi eu cynnal gyda BECTU hyd yma, ac roedd yn disgwyl gwybodaeth oddi wrth y BBC. Bwriedir cyflwyno diweddariad i'r Pwyllgor Archwilio, Rheoli Risg, Personél a Chydnabyddiaeth maes o law.

[**Crynodeb:** Trafodwyd natur a diwyg yr adroddiad Blynyddol.]

9. **Adroddiad o gyfarfod y Pwyllgor Archwilio, Rheoli Risg, Personél a Chydnabyddiaeth a gynhaliwyd ar 12.05.16**

Cyfeiriodd HHE at gyfarfod y Pwyllgor Archwilio, Rheoli Risg, Personél a Chydnabyddiaeth a gynhaliwyd cyn cyfarfod yr Awdurdod, lle'r oedd gwahoddiad i holl aelodau'r Awdurdod fynychu.

Nododd fod Datganiad Ariannol drafft 2015-16 wedi ei gyflwyno i'r Pwyllgor gan swyddogion a Grant Thornton ac yn dilyn ystyried y drafft roedd y Pwyllgor wedi penderfynu argymhell i'r Awdurdod i gymeradwyo'r Datganiad.

Esboniwyd fod rhagor o waith i'w wneud ar nifer o'r nodiadau a'r cyflwyniad i'r cyfrifon yn dilyn cyflwyno safonau cyfrifo newydd ac y byddai swyddogion yn parhau gyda'r gwaith hwn ar y cyd gyda Grant Thornton, ond na fyddai hyn yn effeithio ar gynnwys y datganiad. O'r herwydd roedd y Pwyllgor yn fodlon i'w cyflwyno i'r Awdurdod.

Cymeradwyodd yr Awdurdod Datganiad Ariannol 2015-16 yn unol ag argymhelliad y Pwyllgor, gan ddirprwyo i'r Cadeirydd a HHE yr hawl i gymeradwyo'r gwaith pellach ar nodiadau a chyflwyniad y datganiadau.

10. **Adroddiad o gyfarfod y Pwyllgor Cynnwys a gynhaliwyd ar 28.04.16**

Cyflwynwyd Asesiad Perfformiad yr Awdurdod o raglenni'r BBC yn 2015-16 sydd i'w gyflwyno i Ymddiriedolaeth y BBC. Cymeradwywyd yr Asesiad gan yr Awdurdod.

11. **Nodyn - Cworwm cyfarfodydd yr Awdurdod**

Esboniwyd fod Rheolau Sefydlog yr Awdurdod yn nodi fod angen i 3 Aelod o'r Awdurdod fod yn bresennol mewn cyfarfod er mwyn cael cworwm, ac felly nad oedd cworwm o Aelodau'n bresennol yn y cyfarfod erbyn hyn. O ganlyniad ni fyddai modd cwblhau gwaith y cyfarfod na chymryd unrhyw benderfyniadau ar ran yr Awdurdod.

Nododd y Cadeirydd ei fod am roi cyfle i'r Aelodau oedd yn bresennol i drafod y materion ar yr agenda, gan dderbyn nad oedd cworwm yn bresennol ac felly y byddai angen ail-gyflwyno unrhyw faterion sy'n weddill i gyfarfod nesaf y Pwyllgor.

12. **Adroddiad o gyfarfod y Pwyllgor Cwynion a Chydymffurfiaeth**

Cyflwynwyd adroddiad y Pwyllgor Cwynion parthed cwyn am raglen a nodwyd oherwydd nad oedd cworwm o aelodau'n bresennol y byddai'n rhaid ail-gyflwyno'r adroddiad i'r Awdurdod yn ei gyfarfod ym mis Mehefin.

13. **Diweddariad - Loteri Cymru**

Cyfeiriwyd at y diweddariad am brosiect Loteri Cymru a nodwyd y byddai cyfle i drafod y prosiect a chwestiynau ehangach parthed prosiectau all effeithio neu greu risgiau o ran enw da S4C pan gyflwynir diweddariad ar waith y Bwrdd Masnachol i'r Awdurdod yn ei gyfarfod ym mis Gorffennaf.

14. **Trafod rhaglenni'r mis aeth heibio**

Ni chafwyd trafodaeth am raglenni'r mis aeth heibio.

MATERION ERAILL

15. **Adroddiadau Gwifren Gwylwyr**

Cyflwynwyd adroddiad Gwifren Gwylwyr er gwybodaeth.

16. **Rhaglen Waith 2016/17 – Diweddariad**

Cyflwynwyd diweddariad o'r Rhaglen Waith ar gyfer gwaith yr Awdurdod yn 2016/17 er gwybodaeth.

17. **Unrhyw Fater Arall**

Ni thrafodwyd unrhyw faterion eraill.

Dyddiad y cyfarfod nesaf:

Dydd Iau 9 Mehefin, 2016